

Philip Lloyd ar drywydd **Delweddau Byw o'r Gorffennol (2)**

YN y rhifyn diwethaf o'r *Casglwr* adroddais y rhan gyntaf o'm hanes yn ymhél â hen ffilmiau, gan orffen drwy sôn am ymweliad cyffrous â Stanley Cheetham, wŷr i Arthur Cheetham, y ffilmwr arloesol o'r Rhyl.

Cynhaliwyd y sioe ffilmiau gyhoeddus gyntaf erioed gan y Brodyr Lumière ym Mharis ddiwedd 1895. Dechreuodd Arthur Cheetham ddangos ffilmiau (h.y. rhai o waith pobl eraill) yn Rhagfyr 1896, ond ym misoedd cyntaf 1898 trôdd at dynnu ei ffilmiau ei hun - yn Y Rhyl i ddechrau (o blant yn chwarae ar y traeth), yna mewn trefi eraill ar hyd y gogledd, o Wrecsam (golygfa stryd) i Gaerdybi (y llong bost *Munster* yn cyrraedd yr harbwr o Ddilyn), ac yn Aberystwyth hefyd. Dychwelodd i'r trefi hyn yn eu tro i'w dangos ar y sgrin i drigolion syfrdan.

A oedd rhyw gymaint o gynnyrch dechrau 1898 wedi goroesi? Gallwch ddechymygu'r wefr a gefais yn nhŷ Stanley Cheetham wrth graffu drwy chwydd-wydr ar ffilm o long yn cyrraedd porthladd, a darllen yr enw 'Munster' yn glir ar ei blaen. Sylweddolais fy mod i wedi dod o hyd i'r ffilm a dynnwyd gan ei daid yng Nghaerdybi: *Arrival of the Mail Boat "Munster" at Holyhead*. Ar ben hynny, roedd y ffilm yn un negatïf - sef y gwreiddiol, a fu yn y camera, ac a ddatblygwyd wedyn cyn cynhyrchu'r positif ohono i'w sgrinio.

Caerdybi, Blackburn ac Adef i Aber
Dysgais am Cheetham gyntaf o'r llyfr *Rhyl, the Town and its People*, o waith yr hanesydd lleol J. W. Jones. Dyna sut y deuthum i wybod am ffilm y 'Munster', ond doeddwn i ddim yn meddwl y byddwn byth yn ei gweld. Braint, felly, i mi oedd ymweld â'r hanesydd yn ei ystafell mewn cartref henoed yn Y Rhyl a dangos y delweddau byw hyn o'r gorffennol iddo ar y sgrin - delweddau nad oedd ond wedi ysgrifennu amdany'n nhw.

Un arall o ffilmiau Arthur Cheetham a ddaeth i'r golwg yn y tŷ hwnnw yng Nghaer oedd yr ugain eiliad o oedd yn weddill o hyn a alwyd ganddo: *'the longest football film in the world'* - o'r gêm rhwng Blackburn Rovers a West Bromwich Albion ym 1898. Aeth â hi 'nôl i Blackburn yn rhan o'i sioe amrywiaethol yn cynnwys rhai eraill o'i ffilmiau, caneuon gan Madam Rose Garton (ei wraig, fel y deallais gan Mrs Caudery),

'Champion Clog, Top-boot and Sand Dancer Will Mack' a *'Character Comedian Bert Vardo'*. Pan aeth y National Film Archive â rhaglen o hen ffilmiau pêl-droed ar daith drwy Loegr ym 1993, yr hynaf ohonyn nhw oedd yr ugain eiliad o ffilm Blackburn.

Roedd yng nghist Stanley Cheetham hefyd ffilmiau o ddyddiau sinema'r teulu yn Aberystwyth (a dynnwyd, mae'n bosib, gan y meibion yn hytrach na'r arloeswr ei hun), a threfnais i Mrs Margaret Evans, hanesydd lleol o'r dref honno, a'i gŵr, y newyddiadurwr Tom Evans, fynd â nhw adref - ac i'r Llyfrgell Genedlaethol yn y diwedd.

Canmlwyddiant a Champ Awyrennwr

Er nad oedd Stanley Cheetham yn ymddiddori ryw lawer yng ngwaith ei daid pan ddeuthum i'w adnabod gyntaf, daeth yn y man i werthfawrogi ei le anrhydeddus yn hanes y ffilm yng Nghymru. A phan ddathlwyd canmlwyddiant y diwydiant, daeth i'r Rhyl i ddadorchuddio plac yn Neuadd y Dref, lle bu Arthur Cheetham yn dangos ffilmiau gyntaf.

Pan lwyddodd arloeswr arall o'r Rhyl, yr awyrennwr Vivian Hewitt, i fod y cyntaf i hedfan dros Fôr Yr Iwerddon ym 1912, roedd Arthur Cheetham yno, yn ffilmio ei awyren *Blériot* yn codi i'r awyr mewn cae ger Caerdybi. Gwerthodd y ffilm i gwmni *newsreel* y Topical Budget. Ond er imi holi sawl archif ffilm, does dim sôn amdani hyd yma. Rhaid byw mewn gobaith ei bod yn llechu dan y gwely neu yn yr atig neu'r seler yn rhywle ac y daw i'r golwg yn y man!

Erbyn hyn mae copïau 'meistr' o'r holl ffilmiau o waith Arthur Cheetham a'r Brodyr Shannon a ddaeth i'r golwg hyd yma ym meddiant rhyw archif neu'i gilydd. Yn ogystal, mae gen i fy nghopi personol o ddetholiad byr o ffilmiau Cheetham i'm dibenion fy hun. Un achlysur nad anghofiaf byth oedd eu sgrinio i gynulleidfau yn Y Rhyl adeg y canmlwyddiant, gyda'r cerddor dawnus Rhys Jones yn ail-greu naws cyfnod y ffilmiau mud gyda chyfeiliant hudolus ar y piano.

Cerdyn hysbysebu Arthur Cheetham am ei ffilm o ehediad Vivian Hewitt, 1912 (o 'Modest Millionaire', bywgraffiad Hewitt gan William Hywel, 1973)

GRAND PAVILION, RHYL.

On Monday, March 28, Mr A. Cheetham

WILL GIVE HIS

Entertainment **Living Pictures**

with his

BY THE

SILVOGRAPH!

The following Local Living Pictures have recently been taken by Mr Cheetham:—Scene in Rhyl Station: The Irish Mail; Loading Slates in the Docks at Portmadoc; Arrival of the Irish Mail Boat at Holyhead; Horse Fair at Llangollen; Football Match at Rhyl, Town v. Amateurs (March 12th); Ladies Boating in Aberystwyth Bay; Arrival of a Train at Llanrwst; A Diver at Work in the Docks at Holyhead; Street Scene in High St., Wrexham.


Doors open at 7-30, to commence at 8 prompt.

Reserved Seats 2s. Front Seats & Gallery 1s, Back Seats (limited) 6d. Plan may be seen and Reserved Seats booked at Trehearn's Library, High St. (next to Post Office). Shilling tickets can be had from Mr A. Cheetham, 30 Queen St. Early doors open at 7 o'clock—3d extra to all parts. Ticket holders admitted at 7-15. No Money (for Ordinary Prices) taken till 7-30.

Hysbyseb papur-newydd am ffilm y 'Munster' a rhai eraill, 1898.



Y llong 'Munster' yn cyrraedd Caerdybi (o ffilm gan Arthur Cheetham, 1898)



Blackburn Rovers v West Bromwich Albion (o ffilm gan Arthur Cheetham, 1898)